

# Canllaw Cynllunio Atodol: Safleoedd bywyd gwylt



Ebrill 2010

[www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk)

Uned Polisi a Pherfformiad, Gwasanaeth  
Amgylcheddol, Adran Rheoleiddo (Cynllunio,  
Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd),  
Cyngor Gwynedd



## **CYNNWYS**

	<b>Paragraff</b>
<b>Datganiad am ymgynghori</b>	1 - 2
<b>Pwrpas Canllawiau Cynllunio Atodol</b>	3 – 4
<b>Cefndir</b>	5 – 7
<b>Polisiau a Deddfwriaeth</b>	
	8 – 9
<b>Polisi Cynllunio Cymru - fel y'i diwygiwyd gan MIPPS</b>	
	10
<b>Nodyn Cyngor Technegol 5</b>	
<b>Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006</b>	11
<b>Cyfarwydddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd 1992 a Rheoliadau Cynefinoedd 1994</b>	12 – 13
	14
<b>Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru</b>	
	15
<b>Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth</b>	
	16
<b>Natur Gwynedd</b>	
	17
<b>Polisiau Cynllun Datblygu Unedol</b>	
	18- 20
<b>Cyfrifoldebau Ymgeisiwr</b>	
	21
<b>Datblygiadau a Safleoedd Bywyd Gwyllt</b>	
	22 - 23
<b>Dewis safleoedd bywyd gwyllt</b>	
	24
<b>Map Safleoedd Bywyd Gwyllt Arfaethedig</b>	
<b>Atodiad A – gwybodaeth bellach</b>	

### **Datganiad am ymgynghori**

- 1 Fe fuodd y fersiwn drafft o'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) yma'n destun ymgynghoriad cyhoeddus o 3 Rhagfyr 2009 i 14 Ionawr 2010. Fe gyhoeddwyd rhybudd cyhoeddus yn y Caernarfon & Denbigh Herald ac yn y Cambrian News ar 3 Ragfyr 2009 i roi gwybod am yr ymgynghoriad cyhoeddus. 'Roedd copiau o'r CCA ar gael i'w gweld ym mhrif swyddfeydd y Cyngor, yn y llyfrgelloedd cyhoeddus ac ar wefan y Cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori. Fe ofynwyd am sylwadau gan amryw o unigolion a sefydliadau, a oedd yn cynnwys cynghorau cymuned. Gellir gweld crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd a'r ymateb iddynt mewn dogfen "Datganiad o ymgynghoriad – Rhagfyr 2009".
- 2 Fe gafodd y sylwadau a'r ymateb iddynt eu craffu gan y Pwyllgor Amgylchedd ar 9 Chwefror 2010. Cafodd y CCA ei fabwysiadu yng nghyfarfod Bwrdd y Cyngor ar 9 Mawrth 2010.

### **Pwrpas Canllawiau Cynllunio Atodol**

- 3 Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) hwn yn un o gyfres o nodiadau canllaw sy'n ategu polisiâu'r Cynllun Datblygu Unedol (CDU) sydd wedi'i fabwysiadu. Er y bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio'n seiliedig ar bolisiâu mabwysiedig y CDU (fel y'u nodir yn rhan 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004), mae cynnwys y CCA yn ystyriaeth gynllunio faterol.
- 4 Yn gyffredinol prif bwrpas y CCA hwn yw:
  - cynorthwyo a rhoi canllaw cynhwysfawr ar gyfer y cyhoedd, swyddogion cynllunio a phwyllgorau cynllunio sy'n ymdrin â safleoedd a elwir yn Safleoedd Bywyd Gwylt sydd o bwysigrwydd lleol oherwydd eu gwerth ecolegol.

### **Cefndir**

- 5 Safleoedd Bywyd Gwylt yw lleoedd a ystyrir o bwysigrwydd lleol am werth eu bioamrywiaeth. Maent yn safleoedd anstatudol heb eu dynodi gan unrhyw ddeddf benodol ond gan gyfres o bolisiâu a deddfwriaeth. Fe'u defnyddir yn y system gynllunio er mwyn gwarchod lleoedd â gwerth cadwraeth natur sylweddol iddynt yn lleol. Gellir adnabod Safleoedd Bywyd Gwylt gan feini prawf sydd wedi'u datblygu'n lleol ac maent y lleoedd pwysicaf am fywyd gwylt a bioamrywiaeth y tu allan i safleoedd statudol megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).
- 6 Mae gan Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd amrywiaeth cyfoethog o rywogaethau a chynefinoedd, ac adlewyrchir hyn yn nifer y lleoedd a ddynodwyd am eu pwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Mae Gwynedd yn gadarnle i lawer o rywogaethau prin megis y frân goesgoch ac ystlumod pedol leiaf a cheir enghreifftiau da o sawl cynefin dan fygythiad, megis corysdd a rhostir ar iseldiroedd yn y sir. Fel arfer, mae Safleoedd Bywyd Gwylt yn lleoedd sy'n cyfrannu tuag at gymeriad tirwedd nodedig ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd (ac eithrio'r Parc Cenedlaethol) ac mae hyn yn arbennig o berthnasol o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn.
- 7 Mae gennym ddyletswydd i warchod ein hadnodd bioamrywiaeth ar gyfer cenedlaethau i ddod. Dylid ymdrin â Safleoedd Bywyd Gwylt, ynghyd â

safleoedd statudol, fel isafswm yr adnodd bywyd gwyllt a ellir ei gael mewn ardal. Islaw'r isafswm hwn, ni all bywyd gwyllt adfer i lefel gynaliadwy. Dylid rhwystro colli neu ddifrodi Safleoedd Bywyd Gwyllt a safleoedd statudol ble bo'n bosib er mwyn datblygu amgylchedd cynaliadwy.

### **Polisiau a Deddfwriaeth Genedlaethol Polisi Cynllunio Cymru (PCC) fel y'i diwygiwyd gan MIPPS**

- 8 Mae polisi cynllunio Cymru yn cydnabod pwysigrwydd Safleoedd Bywyd Gwyllt yn y system gynllunio ac yn argymhell eu cynnwys mewn cynlluniau datblygu a rheolaeth datblygu. Cynghorir ynddo y dylid sefydlu safleoedd Bywyd Gwyllt ar sail asesiad gwyddonol ffurfiol o werth cadwraethol bywyd gwyllt y safle. Yn ogystal dylent adlewyrchu gwerthoedd cymunedol a dylai'r meini prawf a ddefnyddir i'w dewis fod ar sail fiolegol. (Polisi Cynllunio Cymru 2002).
- 9 Datgan paragraff 5.5.1 Polisi Cynllunio Cymru (2002) y dylid cymryd i ystyriaeth bioamrywiaeth a thirwedd wrth benderfynu ar geisiadau unigol. Gall effaith datblygiad ar fywyd gwyllt neu dirwedd unrhyw ardal fod yn ystyriaeth berthnasol. Mewn achosion o'r fath ac er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy mae'n bwysig cael cydbwysedd rhwng amcanion cadwraeth ac anghenion economaidd ehangach y busnesau a'r cymunedau lleol. Os bydd datblygu yn digwydd mae'n bwysig sicrhau y cymerir pob cam rhesymol i ddiogelu neu wella ansawdd amgylcheddol y tir.

### **Nodyn Cyngor Technegol 5 - Cynllunio a Chadwraeth Natur**

- 10 Mae Nodyn Cyngor Technegol 5 (2009) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys pennod ar 'Safleoedd Lleol'. Cydnabyddir ynddo bwysigrwydd cyfraniad Safleoedd Bywyd Gwyllt i weithredu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ac i reoli nodweddion y tirlun sydd o bwysigrwydd mawr i rywogaethau. Mae'n datgan y dylai datblygwyr, ble bynnag y bo'n bosib, osgoi niweidio buddiannau'r nodweddion yn y Safleoedd Bywyd Gwyllt. Os yw difrod yn anochel, dylid defnyddio mesurau lliniaru i leihau'r effaith.

### **Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006**

- 11 Mae Adran 40, Deddf NERC 2006 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei warchod drwy weithredu eu swyddogaethau. Yn unol ag Adran 42, mae'r Cynulliad wedi cynhyrchu rhestr o rywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth uchel yng Nghymru. Mae'r rôl sydd gan Awdurdodau Lleol yn cynllunio defnydd tir a rheoli eu tir eu hunain yn amlwg yn berthnasol i'r system Safle Bywyd Gwyllt lleol.

### **Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd 1992 a Rheoliadau Cynefinoedd 1994**

- 12 Datgan Erthygl 10 o Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE 1992: "*Member states shall endeavour, where they consider it necessary, in their land use planning and development policies, and, in particular, with a view to improving the ecological coherence of the Natura 2000 network, to encourage the management of features of the landscape which are of major importance for wild flora and fauna*".

- 13 Cafodd hwn ei drosglwyddo i ddeddfwriaeth genedlaethol fel rheol 37, Rheoliadau Cynefinoedd 1994 sy'n gofyn i gynlluniau datblygu gynnwys polisïau ar gyfer gwarchod coridorau bywyd gwyllt a cherrig sarn.

#### **Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru**

- 14 Yn 2006 cyhoeddodd y Cynulliad Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru gyda gweledigaeth am yr 20 mlynedd i ddod. "*Erbyn 2026, rydym eisiau gweld yr amgylchedd arbennig sydd gennym ni yng Nghymru yn ffynnu ac yn cyfrannu at iechyd a lles economaidd a chymdeithasol holl bobl Cymru.*" Mae'r strategaeth yn gofyn am warchod a gwella safleoedd cadwraeth bywyd gwyllt pwysig. Mae'r deilliannau a geisir yn y strategaeth hon yn cynnwys, rhwystro colli bioamrywiaeth, mwy o gysylltiad rhwng cynefinoedd ar draws tirwedd Cymru a bod safleoedd o bwysigrwydd lleol a chenedlaethol mewn cyflwr ffafriol.

#### **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth**

- 15 Strategaethau yw Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth i warchod bioamrywiaeth sy'n nodi cynefinoedd a rhywogaethau sydd dan fygythiad ac yn rhestru'r hyn sy'n rhaid ei wneud i'w cynnal a'u gwella. Mae Safleoedd Bywyd Gwyllt yn cynnal llawer o gynefinoedd a rhywogaethau sy'n flaenoriaeth dan Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y DU. Disgrifiodd adroddiad Grŵp Llywio Bioamrywiaeth y DU yn 1995 fecanwaith ar gyfer gweithredu drwy gynhyrchu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth leol. Roedd yr adroddiad hwn yn argymhell y dylai systemau Safleoedd Bywyd Gwyllt ffurfio un rhan o'r broses hon drwy adnabod pob safle gydag ansawdd bywyd gwyllt cydnabyddedig o fewn yr ardal leol.

#### **Natur Gwynedd**

- 16 Natur Gwynedd yw'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLI) sy'n darparu strategaeth ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth ac fe'i cynhyrchwyd gan bartneriaeth o sefydliadau ac unigolion. Fe'i mabwysiadwyd gan Gyngor Gwynedd yn 2004 ac mae'n cynnwys holl ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Cyhoeddwyd CGBLI gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y rhannau hynny o Wynedd sydd o fewn y Parc Cenedlaethol. Bwriad y cyfuniad hwn o gynlluniau yw cynnal a gwella bioamrywiaeth Gwynedd. Mae Natur Gwynedd yn cynnwys gweithrediadau i sicrhau y gwarchodir cynefinoedd a rhywogaethau drwy gyfrwng y system gynllunio a dynodi Safleoedd Bywyd Gwyllt o fewn Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd.

#### **Polisïau yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd**

- 17 Yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2001-2016, cynhwysir y polisïau a ganlyn mewn perthynas â Safleoedd Bywyd Gwyllt:
- *Polisi B17 – Gwarchod safleoedd o arwyddocâd rhanbarthol neu leol – yn ymwneud yn benodol â Safleoedd Bywyd Gwyllt a'u diogelu.*
  - *B21 – Coridorau Bywyd Gwyllt, cysylltiadau cynefinoedd a cherrig sarn. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â phwysigrwydd cysylltiadau yn y tirwedd a symudiad rhywogaethau ac er mwyn galluogi cyfnewid genetig mewn rhywogaethau.*

### **Cyfrifoldebau Ymgeiswr**

- 18 Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu ag Uned Bioamrywiaeth Gwynedd neu'r Ganolfan Cofnodion Biolegol Lleol er mwyn darganfod os yw safle'r datblygiad arfaethedig yn ymgeisydd am statws Safle Bywyd Gwyllt cyn gwneud cais.
- 19 Os bydd cynigion am ddatblygu yn debygol o gael effaith, naill ai yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, ar Safle Bywyd Gwyllt neu safleoedd sy'n bodloni meini prawf Safle Bywyd Gwyllt, bydd yn rhaid i'r ymgeisydd gomisiynu archwiliad ac asesiad ecolegol gan ecolegydd wedi cymhwyso'n briodol, er mwyn penderfynu beth fyddai ardrawiad ecolegol y datblygiad arfaethedig cyn i'r awdurdod cynllunio wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd talu am yr archwiliad a'r asesiad, nid yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Gall Uned Bioamrywiaeth Gwynedd roi cyngor ynglŷn â'r math o archwiliad ecolegol sydd ei angen.
- 20 Os, ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, bod bwriad penodol am gael ardrawiad uniongyrchol neu anuniongyrchol ar Safle Bywyd Gwyllt, yna cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw dangos na fyddai gwerth y safle'n cael ei ddifrodi, ei ddiraddio na'i newid mewn unrhyw ffordd gan unrhyw waith cysylltiedig â'r bwriad hwnnw. Cynghorir ymgeiswyr i drafod bwriadau o'r fath gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn gynted ag y bo modd yn y broses.

### **Datblygiadau a Safleoedd Bywyd Gwyllt**

- 21 Yn unol â pholisi B17 CDU, gwrthodir cynigion fyddai'n debygol o achosi niwed arwyddocaol uniongyrchol neu anuniongyrchol ar safle Bywyd Gwyllt oni bai:
  1. y gellir atal difrod i nodweddion cadwraeth natur a bod y datblygwr yn cymryd camau i warchod, cyfoethogi a rheoli'r nodweddion cadwraeth natur; neu
  2. bod yr angen am y cynnig i ddiwallu anghenion cymdeithasol, amgylcheddol a/neu economaidd yn gwrthbwysu pwysigrwydd rhanbarthol neu leol y safle.

Ac y gellir bodloni'r cyfan o'r meini prawf a ganlyn:

- a. bod lleoliad, dyluniad ac adeiladwaith y datblygiad yn lleihau'r difrod i'r nodweddion cadwraeth natur a manteisir ar gyfleoedd i wella gwerth cadwraeth natur,
- b. darperir nodweddion cadwraeth natur sy'n cydbwysu ac yn gyfartal;
- c. gwarchodir a chyfoethogir y nodweddion cadwraeth natur sydd ar ôl ac mae darpariaeth ar gyfer eu rheoli;
- d. lle bo hynny'n briodol, darperir cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau a dehongli'r safle.

Pan ganiateir datblygiad, defnyddir amodau neu/a rhwymedigaethau cynllunio er mwyn diogelu gwerth bioamrywiaeth lleol y safle, neu ddarparu mesurau lliniaru priodol drwy hyrwyddo a chreu cynefinoedd newydd arall un ai ar y safle neu mewn lleoliad priodol arall.

## Amcanion Safleoedd Bywyd Gwyllt yn Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd

- **Gwarchod ardaloedd bioamrywiaeth pwysig**

Mae Safleoedd Bywyd Gwyllt yn hanfodol er mwyn caniatáu i'r system gynllunio adnabod a thrwy hynny warchod ardaloedd o werth bioamrywiaeth pwysig sydd y tu allan i rwydwaith safleoedd a ddiogelir yn statudol.

- **Gwella'r adnodd bioamrywiaeth yng Ngwynedd**

Gellir canolbwyntio ar Safleoedd Bywyd Gwyllt er mwyn gwella cynefinoedd ac maent yn rhan bwysig o'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a Strategaethau Bioamrywiaeth Cenedlaethol.

- **Sicrhau y cedwir cysylltiadau yn y tirwedd**

Nid yw bywyd gwyllt wedi'i gyfyngu gan ffiniau a safleoedd a ddynodwyd yn statudol, mae llawer o rywogaethau yn teithio ar draws cefn gwlad ac maent angen coridorau cynefin a cherrig sarn er mwyn cysylltu â lleoedd eraill fyddai fel arall yn ardaloedd bywyd gwyllt arunig. Mae cysylltiadau yn rhoi elfen gref i Safleoedd Bywyd Gwyllt a safleoedd statudol fel ei gilydd.

- **Cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy yng Ngwynedd**

Mae cael Safleoedd Bywyd Gwyllt sy'n goroesi ac yn cael eu gwarchod yn ddangosydd allweddol o ddatblygiad cynaliadwy yng Ngwynedd. Yn ogystal, mae'n cyfrannu tuag at ansawdd bywyd a lles y gymuned gan roi cyfleoedd ar gyfer ymchwil ac addysg.

### Dewis Safleoedd Bywyd Gwyllt yng Ngwynedd

- 22 Argymhella canllawiau'r Llywodraeth mai dim ond safleoedd sydd â 'gwerth cadwraeth sylweddol' ddylid eu dewis i fod yn Safleoedd Bywyd Gwyllt. Mae'r meini prawf ar gyfer dewis Safleoedd Bywyd Gwyllt yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd wedi eu gosod yn **Safleoedd Bywyd Gwyllt Gwynedd: system ar gyfer eu dewis a'u dynodi** (ar gael ar [www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk) <<http://www.gwynedd.gov.uk>> ) ac fe'u cynhyrchwyd gan Dîm Bioamrywiaeth Gwynedd mewn ymgynghoriad â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Bwriad y meini prawf yw dewis y safleoedd hynny sy'n cynnal cynefinoedd a rhywogaethau a nodir yn Natur Gwynedd yn ogystal â'r rhai a nodwyd gan y Cynulliad dan adran 42, Deddf NERC 2006 o bwysigrwydd mawr i fioamrywiaeth yng Nghymru. Yn aml, mae pwysigrwydd safle ar gyfer gwarchod bywyd gwyllt yn gysylltiedig â llawer o elfennau a rhinweddau. Bydd arfarniad safle yn edrych ar sawl un o'r ffactorau hyn er mwyn ceisio cael gwell dealltwriaeth o werth y safle i fioamrywiaeth. Y ffactorau allweddol hyn yw: rhywogaethau, cynefin, maint, prinder, amrywiaeth, cysylltiadau yn y tirwedd, hyfywdra, arwyddocâd lleol, gwerth posib a gwerth cymdeithasol; fel yr awgrymir yn Llawlyfr Safleoedd Bywyd Gwyllt (Ymddiriedolaeth Natur 1997 a Defra 2006).
- 23 Bydd pob safle yn cael ei werthuso a chofnodir pwysigrwydd pob un am gadwraeth bywyd gwyllt yn yr ardal. Dylid ystyried pob safle sy'n diwallu'r meini prawf fel Safle Bywyd Gwyllt (gweler **Safleoedd Bywyd Gwyllt Gwynedd: system ar gyfer eu dewis a'u dynodi**). Cedwir cofrestr o Safleoedd Bywyd Gwyllt a chaiff ei chynnal gan Gyngor Gwynedd ar ffurf map didigidol a chronfa ddata.

### **Map Safleoedd Bywyd Gwyllt Arfaethedig**

- 24 Mewn ymarfer pen desg, nodwyd fod 1300 Safle Bywyd Gwyllt arfaethedig. Dewiswyd y rhain drwy ddefnyddio awyrluniau ynghyd â chofnodion cynefinoedd a rhywogaethau o wahanol ffynonellau. Mae map digidol yn dangos lleoliad y Safleoedd Bywyd Gwyllt arfaethedig i'w gael gan Gyngor Gwynedd ac mae'r map ar gael ar y fewnrwyd. Gellir cael copi o'r map o'r Ganolfan Cofnodion Biolegol Lleol. Mae angen gwneud arolwg o lawer o'r safleoedd hyn yn ogystal ag asesiad o'u gwerth ac a ydynt yn haeddu cael eu dynodi yn Safle Bywyd Gwyllt. Er hynny, oherwydd nifer fawr o safleoedd arfaethedig, nid yw hi'n bosib ar hyn o bryd i gynnal arolwg a'u gwerthuso i gyd yn systematig. Bydd gwerthusiad o safle fwy na thebyg yn cael ei gychwyn gan fwriad cynllunio ar y safle arfaethedig neu yn agos ato.



## **Atodiad A**

### **Gwybodaeth Bellach**

Am wybodaeth bellach ynglŷn â Safleoedd Bywyd Gwyllt neu os yw ymgeisydd yn dymuno trafod bwriad datblygu sy'n debygol o amharu ar Safle Bywyd Gwyllt a fyddech cystal â chysylltu ag:

Uned Bioamrywiaeth Gwynedd  
Gwasanaethau Amgylcheddol  
Cyngor Gwynedd,  
Pencadlys  
Caernarfon  
LL55 1SH

01286 679977

[bioamrywiaeth@gwynedd.gov.uk](mailto:bioamrywiaeth@gwynedd.gov.uk)

Uned Polisi a Pherfformiad – Cynllunio  
Gwasanaethau Amgylcheddol  
Adran Rheoleiddio  
Cyngor Gwynedd  
Stryd y Jêl  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1SH  
Ffôn 01286679172  
[PolisiCynllunio@gwynedd.gov.uk](mailto:PolisiCynllunio@gwynedd.gov.uk)

### **Rheolaeth Datblygu (Cynllunio)**

#### ***Ardal Arfon***

Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth  
Adran Rheoleiddio  
Swyddfa Ardal Arfon  
Penrallt  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1BN  
Rhif ffôn: (01286) 682765  
Rhif ffacs: (01286) 682771  
E-bost: [Cynllunio@gwynedd.gov.uk](mailto:Cynllunio@gwynedd.gov.uk)

#### ***Ardal Dwyfor***

Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth  
Adran Rheoleiddio  
Swyddfa Ardal Dwyfor  
Ffordd y Cob  
Pwllheli  
Gwynedd  
LL53 5AA  
Rhif ffôn: (01758) 704118  
Rhif ffacs: (01758) 704053  
E-bost: [Cynllunio@gwynedd.gov.uk](mailto:Cynllunio@gwynedd.gov.uk)

**Ardal Meirionnydd**

Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth

Adran Rheoleiddio

Swyddfa Ardal Meirionnydd

Cae Penarlâg

Dolgellau

Gwynedd

LL40 2YB

Rhif ffôn: (01341) 424414

Rhif ffacs: (01341) 424440

E-bost: [Cynllunio@gwynedd.gov.uk](mailto:Cynllunio@gwynedd.gov.uk)

Defra (2006), *Local Sites, Guidance on their Identification, Selection and Management*

The Wildlife Trust (1997), *The Wildlife Sites Handbook*, Fersiwn 2.